

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru





ISBN digidol: 978-1-80391-440-4
WG43599
© Hawlfraint y Goron 2021

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog

Y Prif Swyddog Rhanbarthol

Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru

1. Y Broses Gydgynhyrchu
2. Gwerthoedd a Rennir a Ffyrdd o Weithio
3. De-orllewin Cymru – Ble rydym arni ar hyn o bryd?
4. De-orllewin Cymru – Ble yr hoffem fod?
5. Blaenoriaethau Economaidd
6. Ein Camau Nesaf

Rhagair gan y Gweinidog



Mae dull y Lywodraeth hon o ymdrin â lles economaidd yn seiliedig ar yr egwyddor bod lleoedd yn bwysig. Rydym am wireddu ein huchelgais ar gyfer darparu swyddi gwell yn nes at gartrefi pobl, a sicrhau bod pawb ledled Cymru yn mwynhau manteision twf economaidd. Mae Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy'n cael eu cynllunio ar y cyd â'n partneriaid yn rhan hanfodol o'n hymrwymiad i fodel mwy rhanbarthol ar gyfer datblygu economaidd. Maen nhw'n rhan o'n gwaith i ddatblygu cryfderau arbennig ein rhanbarthau, gan ategu twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol, a gwella llesiant ein pobl.

Bydd ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau strwythurol cynhenid rydym yn eu hwynebu mewn modd ymatebol drwy eu troi'n gyfleoedd i greu rhanbarthau deinamig a gwahanol sy'n dangos twf economaidd cynhwysol, teg a chynaliadwy. Byddant yn ein helpu i gynllunio atebion

ar gyfer y dyfodol ar y cyd â'n partneriaid. Mae'n bwysig nodi hefyd y byddant yn ddogfennau byw ac esblygiadol sy'n ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Mae ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer economi llesiant sy'n hyrwyddo ffyniant. Mae'n amgylcheddol gadarn ac yn helpu pawb i wireddu eu potensial. Cafodd ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol eu llunio ar y cyd â'n partneriaid rhanbarthol, a bydd yn gallu chwarae rôl allweddol wrth gyflawni'r weledigaeth hon a sicrhau bod gweithgareddau ar bob lefel yn cyd-fynd i ganolbwyntio ein hadnoddau lle y gallant gael yr effaith fwyaf. Byddant yn ein helpu i sicrhau llais rhanbarthol cryfach ac yn ein galluogi i ychwanegu at y cynnydd a wnaed eisoes o ran datblygu ein heconomiâu rhanbarthol. Bydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth ein helpu i adfer o ddifrod economaidd y pandemig a lliniaru effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a bydd,

ar yr un pryd, rhoi'r weledigaeth hirdymor sydd ei hangen ar gyfer economi ranbarthol fwy ffyniannus, gwyrdd a chyfartal.

Caiff ein Cynllun Cymru Sero Net ei gefnogi drwy gyflwyno ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a fydd yn cyflwyno rhanbarthau glanach, cryfach a thecach.

Byddwn yn cynyddu gallu ein hamgylcheddau naturiol ac adeiledig i wrthsefyll effeithiau hinsawdd sy'n newid, a galluogi trawsnewid economaidd yn ein rhanbarthau a fydd yn helpu i ddisodli ein dibyniaeth ar danwydd ffosil, a chreu diwydiannau a swyddi'r dyfodol.

Rwy'n dal i fod wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl a'r busnesau ar hyd a lled Cymru yn cael pob cyfle i gyflawni datblygiad economaidd hirdymor gydag urddas a thegwch i bawb. Mae ein Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn rhan bwysig o'r gwaith hwn a byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda'n partneriaid allweddol, a'r nifer fawr o bobl eraill sydd â diddordeb yn yr economi ranbarthol, i ymateb i'r heriau sy'n ein hwynebu a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Yn benodol, bydd y Fframweithiau'n chwarae rhan allweddol wrth greu'r amodau lle y bydd rhagor o bobl, yn enwedig pobl ddifreintiedig a phobl ifanc, yn teimlo'n hyderus i gynllunio'u dyfodol yng Nghymru.

Mae'r ffordd rydym yn cyflawni yr un mor bwysig â'r hyn rydym yn ei ddarparu, a bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac ysgogi datgarboneiddio wrth wraidd y gwaith hwn.

Rwy'n cydnabod nad oes gan y Llywodraeth ei hun yr holl atebion. Mae dull gweithredu, cydweithredol fesul cam, gan weithio gyda phartneriaid o bob rhan o'r rhanbarth, yn hanfodol i'n llwyddiant. Mae cydweithio â'n partneriaid eisoes wedi arwain at gyd-ddatblygu un weledigaeth a gaiff ei hategu gan gyfres o ganlyniadau a rennir ac a flaenoriaethir, a'i nodi yn y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol newydd ar gyfer De-orllewin Cymru. Mae'n fframwaith a fydd yn galluogi mwy o gysondeb ac integreiddio ym mhob rhan o'r llywodraeth a bydd yn ysgogi'r cyd-ddatblygiad economaidd a chynllunio strategol rhwng partneriaid sydd eu hangen i lunio dulliau gweithredu newydd a hwyluso cydweithio a thwf economaidd yn y dyfodol. Hoffwn ddiolch i'r holl rhanddeiliaid sydd wedi ymwneud â'r broses hon a chyfrannu ati hyd yn hyn – yn enwedig ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol ac edrychwn ymlaen at barhau â'r sgwrs â phawb sydd â diddordeb mewn economi ranbarthol ffyniannus yn y dyfodol.



Vaughan Gething

Vaughan Gething AS
Gweinidog yr Economi

Y Prif Swyddog Rhanbarthol



Fel Prif Swyddog Rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru, mae'n fraint cael bod yn llais dros y rhanbarth o fewn y Llywodraeth ac yn llais dros y Llywodraeth yn y rhanbarth. Fy rôl i yw arwain, cydlynu, cynllunio ac alinio gweithgareddau datblygu economaidd ar draws y rhanbarth.

Mae llawer o sgysiau a thrafodaethau eisoes wedi cael eu cynnal â phartneriaid rhanbarthol ar lefel strategol, is-ranbarthol a lleol. Y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol newydd hwn yw'r cam cyntaf ar y daith sydd wedi dod â phartneriaid at ei gilydd i gynllunio ar y cyd, gan ganolbwyntio nawr ar gydweithio i roi'r Fframwaith Economaidd Rhanbarth hwn ar gyfer De-orllewin Cymru ar waith – dim ond drwy broses o gydweithio a chyd-gynhyrchu y byddwn yn gweld yr ymdrech a'r pwrpas a rennir sy'n hanfodol i economi ranbarthol lwyddiannus.

Er ein bod yn gwybod y bydd y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn mynd i'r afael â rhai o'r themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg, fel sgiliau, seilwaith a chymorth i fusnesau, rhaid inni roi blaenoriaeth i sicrhau ymateb sydd wir yn seiliedig ar le ac sydd wedi'i deilwra yn ôl anghenion a chyflleoedd, gan gydnabod y gwahaniaethau is-ranbarthol penodol sy'n bodoli hyd a lled De-orllewin Cymru. Yn sail i hyn bydd yr egwyddor nad yw rhanbarthau'n isradd i'r lefel genedlaethol mewn perthynas â'u blaenoriaethau eu hunain y cytunwyd arnynt o dan egwyddorion a rennir, a rhaid inni roi'r pwys mwyaf ar barchu sybsidiaredd ac atebolrwydd democrataidd ar wahanol lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Gall Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sicrhau rhagor o alinio ac integreiddio ar draws y Llywodraeth, gan ddod â manteision sy'n cynnwys datblygu economaidd cydgysylltiedig a chynllunio strategol ar



// ...dim ond drwy broses o gydweithio a chyd-gynhyrchu y byddwn yn gweld yr ymdrech a'r pwrpas a rennir sy'n hanfodol i economi ranbarthol lwyddiannus economi ranbarthol lwyddiannus.

amrywiaeth o faterion, gan gynnwys y ffordd mae tir yn cael ei ddefnyddio a sgiliau, yn ogystal â chefnogi cydweithio ar draws y rhanbarthau – gan weithio gyda'r strwythurau llywodraethu newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli ar draws ffiniau awdurdodau lleol ar faterion fel adfywio canol trefi, trafndiaeth strategol a seilwaith.

Ni fydd y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol yn dyblygu'r cynlluniau sydd eisoes yn bodoli. Yn hytrach, byddant yn dwyn ynghyd yr elfennau allweddol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol, ac yn ceisio dylanwadu'n uniongyrchol ar y ffordd mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni mewn rhanbarthau a mannau unigol. Bydd y fframweithiau hyn yn hyblyg er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn ymateb i amgylchiadau economaidd sy'n newid a chyfluoedd newydd, gan chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu newydd a'n Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi. Gall y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol hwn fod yn gyfrwng i helpu i annog partneriaid y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i weithio ar y cyd i gynllunio a chyflawni yn rhanbarthol, gan weithio tuag at weledigaeth a rennir a set o amcanion cyffredin ar gyfer datblygu economaidd. Wrth ddatblygu'r Fframwaith, rydym wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i ailosod ac adfer yn sgil pandemig y coronafeirws, ond hefyd o'r angen i nodi dyheadau tymor hwy y rhanbarth ac

ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn ein hymdrechion i adeiladu economi ranbarthol wyrddach wrth inni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi eu mewnbwn hyd yma, yn enwedig y pedwar awdurdod lleol sy'n bartneriaid inni (Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe). Rydym wedi ceisio cydweithio'n agosach â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid rhanbarthol ac mewn modd mwy effeithiol. Mae hynny wir wedi dwyn ffrwyth a, thrwy ymdrechion ar y cyd ar draws y rhanbarth, rydym yn gwneud gwahaniaeth gweladwy ar gyfer busnesau a chymunedau ar draws De-orllewin Cymru.




Rhodri Griffiths
Prif Swyddog Rhanbarthol,
Canolbarth a De-orllewin Cymru



Y FFRAMWAITH ECONOMAIDD RHANBARTHOL AR GYFER DE-ORLLEWIN CYMRU

Mae ein Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, a gafodd ei ddatblygu drwy gydweithio a chydunio â phobl ledled y rhanbarth, yn cefnogi model ar gyfer datblygu economaidd â rhagor o ffocws ar y rhanbarth, yn unol â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ymrwymiad i roi ar waith ein Cenhadaeth i Gryfhau ac Adeiladu Economi Cymru. Mae'n amlinellu'r hyn byddwn yn ei wneud a sut byddwn yn mynd ati.




EIN GWERTHOEDD A RENNIR					
Cynwysoldeb byddwn yn cynnwys rhagor o bobl yn ein gwaith.	Ymddiriedaeth byddwn yn parchu ac yn ymddiried yn y bobl rydym yn gweithio gyda nhw.	Bod yn Agored byddwn yn rhannu ein gwybodaeth a'n hadnoddau.	Cydweithio byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein nodau cyffredin.	Meddwl am y System Gyfan byddwn yn ystyried effaith lawn ein gweithredoedd.	Awydd am Newid byddwn yn herio confensiwn ac yn gweithredu.

EIN FFYRDD O WEITHIO	
Ar Sail Asedau byddwn yn adeiladu ar gryfderau gwych ein rhanbarth.	Cyberchnogaeth byddwn yn rhannu pŵer a'r cyfrifoldeb am ein dyfodol.
Datblygu Parhaus byddwn bob amser yn ceisio newidiadau cadarnhaol.	Gweithredu dan Arweiniad y Gymuned byddwn yn galluogi newid o lawr gwlad i fyny.

Byddwn yn gweithredu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government





1. Y Broses Gydgynhyrchu

Dyma'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol cyntaf ar gyfer De-orllewin Cymru, ac mae'n rhan o'r newid i fodel rhanbarthol ar gyfer datblygu economaidd sydd â ffocws rhanbarthol. Mae'r fframwaith yn ganlyniad dull gwahanol o weithredu sy'n cynnwys trafodaethau helaeth a chydunio â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ar draws y rhanbarth, yn ogystal ag adeiladu ar waith presennol partneriaid rhanbarthol. Ar gyfer y dull hwn mae gofyn y cwestiynau cywir wedi bod yr un mor bwysig â rhoi'r atebion, a'r Fframwaith hwn yw'r man cychwyn mewn proses barhaus a chydweithredol a fydd yn cael ei hadlewyrchu yn y ffordd rydym yn gweithio yn y rhanbarth.

Mae'r broses ymgysylltu wedi tynnu sylw'n benodol at y themâu canlynol:

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Plant a phobl ifanc
- Y Gymraeg
- Yr amgylchedd

Nid yw'r Fframwaith ychwaith i fod yn gynllun busnes anhyblyg neu draddodiadol. Yn hytrach mae'n darparu fframwaith i nodi sut mae'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn cyflawni ar gyfer y rhanbarth ac ar gyfer mannau unigol. Roedd llawer o'r sgysiau a oedd yn llywio'r Fframwaith yn ymwneud nid yn unig â'r hyn y mae'n rhaid inni ei wneud i gynyddu economi'r rhanbarth, ond hefyd â'r ffordd mae'n rhaid inni wneud hynny a'r math o benderfyniadau y bydd angen eu gwneud. Ac wrth wynebu'r heriau sylweddol i economi'r rhanbarth, yn enwedig effeithiau COVID-19, Brexit a llai o adnoddau, mae'n briodol bod y Fframwaith yn penderfynu ble

i ganolbwyntio a pham, gan nodi'r gwahanol rolau a chyfrifoldebau.

Yn unol â'r egwyddor bresennol sydd ar waith, sef adeiladu ar waith sy'n bodoli eisoes a pheidio â dyblygu gwaith, y mae'r argraffiad cyntaf hwn o'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol yn un sy'n fwriadol eang a lefel uchel, gyda llawer o'r sail resymegol fanwl a thechnegol yn y strategaethau datblygu economaidd a'r cynlluniau lleol sydd eisoes yn bodoli neu sydd wrthi'n cael eu datblygu. Mae'n bwysig nodi bod ein partneriaid yn yr awdurdodau lleol partneriaid Awdurdodau Lleol yn Ne-orllewin Cymru, wedi mynd ati, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, i gomisiynu gwaith i baratoi Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol ar gyfer y rhanbarth, i ddarparu haen arall o fanylion o dan y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol sy'n amlinellu'r camau sydd eu hangen i gyflawni yn unol â'r blaenoriaethau lefel uchel a nodir yn y Fframwaith. Y tu ôl i'r weledigaeth mae dull cydweithredol sy'n cael ei arwain gan yr Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru i ddarparu'r alinio a'r cysondeb sydd eu hangen i sicrhau bod uchelgeisiau strategol a'r ffyrdd o weithio a nodir yn y Fframwaith, a'r camau gweithredu manwl a amlinellir yn y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol sy'n angenrheidiol i sbarduno lles economaidd cynaliadwy ar draws De-orllewin Cymru yn ategu ei gilydd.

Felly, mae'r Fframwaith yn adlewyrchu'n agos y gwaith presennol ar lefel ranbarthol, a thrwy ddull cynhwysol sy'n seiliedig ar leoedd, mae'n cydnabod heriau a chyfleoedd unigryw'r bobl sy'n byw a gweithio yn Ne-orllewin Cymru. Mae'r

cam ymgysylltu yn y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith hwn, ynghyd â thrafodaethau helaeth drwy gydol y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol, wedi cadarnhau cryfderau'r rhanbarth, ei brif asedau, yr heriau sydd o'n blaenau ac awydd am ragor o gydweithio a chyfranogi i wella ein rhagolygon economaidd.



2. Gwerthoedd a Rennir a Ffyrdd o Weithio

Gwerthoedd a rennir yw'r gwerthoedd hynny sy'n sail i'n camau gweithredu a'n penderfyniadau, ac sy'n ein galluogi i weithredu mewn modd cydlynus. Maent yn ein galluogi i weithio gyda'n gilydd fel rhanbarth, i siarad ag un llais, ac i sbarduno newid cadarnhaol.

Cynwysoldeb

Rydym yn gwerthfawrogi cynwysoldeb. Mae pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn buddsoddi yn Ne-orllewin Cymru, a'r rheini sy'n ymweld â'r ardal, yn rhanddeiliad yn ei heconomi. Mae pob rhanddeiliad yn cael y cyfle i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, ac wrth wneud penderfyniadau, ystyrir effaith y penderfyniadau hynny ar bob rhanddeiliad.

Ymddiriedaeth

Rydym yn gwerthfawrogi ymddiriedaeth. Er mwyn cydweithio mae'n rhaid inni ymddiried yn ein gilydd. Rhaid inni ymddiried yn y rhai sy'n gofyn inni rannu ein pŵer, ymddiried yn y rhai sy'n gofyn inni rannu eu cyfrifoldeb, a rhaid bod gennym ffydd y bydd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n sicrhau bod buddiannau gorau'r rhanbarth yn ganolog wrth iddynt wneud hynny.

Bod yn Agored

Rydym yn gwerthfawrogi bod yn agored. Dylai pawb gael mynediad at yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn gweithredu er budd gorau'r rhanbarth. Dylid cyfathrebu yn rheolaidd mewn modd sy'n dryloyw o ran data, gan sicrhau'r un lefel o hygyrchedd ar gyfer pawb.

Cydweithio

Rydym yn gwerthfawrogi cydweithio. Dim ond drwy gydweithio y gallwn sicrhau newidiadau cadarnhaol. Rhaid cydweithio ar draws sectorau a hierarchaethau, gan dderbyn consesiwn a chyfaddawd, a chanolbwyntio ar wneud yr hyn mae angen ei wneud i sicrhau newidiadau cadarnhaol.

Meddwl am y System Gyfan

Rydym yn gwerthfawrogi meddwl sy'n ystyried y system gyfan. Nid yw economi De-orllewin Cymru yn bodoli'n annibynnol ar bopeth a phawb yn y rhanbarth. O'r herwydd, wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â'n datblygu economaidd, rhaid ystyried sut mae'r canlyniadau yn effeithio ar bawb a phopeth. Rhaid i'r economi weithio ar draws y rhanbarth cyfan a phob cymuned ynddo.

Awydd am Newid

Rydym yn gwerthfawrogi awydd am newid. Ni ddylid rhoi blaenoriaeth awtomatig i'r ffordd y gwneir pethau'n awr dros y ffordd y gellid gwneud pethau yn y dyfodol. Rhaid inni wneud pob penderfyniad yn ôl ei rinweddau ei hun, a phan fydd angen newid, dylid croesawu hynny.

Mae ein Ffyrdd o Weithio'n nodi sut y byddwn yn cymhwyso ein gwerthoedd a rennir, wrth weithio tuag at ein blaenoriaethau economaidd a rennir. Maent yn darparu'r cefndir ar gyfer diffinio rolau a chyfrifoldebau pob rhanddeiliad.

Gweithredu ar Sail Asedau

Byddwn yn adeiladu ar ein gwybodaeth bresennol; ar yr hyn rydym eisoes yn ei wneud a'r hyn sy'n gweithio ar hyn o bryd.

Rhaid i'n datblygu economaidd adeiladu ar ein llwyddiannau, lleihau gwastraff, a datblygu ein heconomi ar y sylfaen gref sydd gennym a'n cryfderau presennol.

Cydberchnogaeth

Byddwn yn grymuso pobl i fod yn gyfrifol am ddatblygu ein heconomi, ac yn ymdrechu i sicrhau bod pob rhanddeiliad ar draws De-orllewin Cymru yn teimlo ei fod yn berchen ar y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.

Datblygu Parhaus

Byddwn yn addasu ac yn datblygu ein Fframwaith Economaidd Rhanbarthol

dros amser. Mae economïau'n newid; mae rhanbarthau'n newid ac mae anghenion rhanddeiliaid yn newid. Mae ein hamgylchiadau a'n cyd-destun presennol yn newid yn barhaus, ac er y bydd ein diben yn parhau, dylai'r ffordd rydym yn hyrwyddo datblygu economaidd rhanbarthol gael ei hadolygu, ei hystyried a'i diwygio'n barhaus.

Gweithredu dan Arweiniad y Gymuned

Byddwn yn gweithio yn unol ag egwyddor sybsidiaredd – rhanddeiliaid a chymunedau sydd yn y sefyllfa orau i ysgogi mewn modd effeithiol y newidiadau y byddant yn manteisio arnynt effeithiol, a byddwn yn eu grymuso i wneud hynny.



3. De-orllewin Cymru – Ble rydym arni ar hyn o bryd?

Mae De-orllewin Cymru yn economi fawr ac amrywiol sy'n cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe ac mae'n cyfrif am 22%¹ o boblogaeth Cymru. Mae'r rhanbarth amrywiol hwn yn cynnwys cymunedau ôl-ddiwydiannol y cymoedd gorllewinol a threfi arfordirol, yn ogystal â chymunedau gwledig, trefi marchnad ac ail ddinas Cymru, sef Abertawe.

Mae gan Dde-orllewin Cymru dreftadaeth ddiwylliannol gref ac ardaloedd sydd â chyfran uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'n enwog am ei harddwch naturiol. Mae'r arfordir yn arbennig o bwysig am ei fod yn ddiwydiannol ac yn ddatblygedig – yn ogystal â bod yn gyrchfan pwysig ar gyfer twristiaid ac yn amgylchedd gwarchoddedig sy'n gynnwys Gŵyr, yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf i gael ei dynodi yn y DU, a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, i gyd yn hawdd eu cyrraedd o nifer o gytreffi trefol. O ganlyniad, mae ansawdd bywyd yn hynod dda ac yn amrywiol.

Gwerth yr economi yw £14 biliwn ac mae'n cynnal tua 300,000 o bobl mewn swyddi. Er bod mwyafrif llethol y busnesau sy'n asgwrn cefn yr economi yn fusnesau bach a chanolig, mae hefyd yno gwmnïau sydd o arwyddocâd rhyngwladol. Mae bwyd a thwristiaeth yn sectorau pwysig ar draws y rhanbarth cyfan, er bod gwerth ychwanegol gros y pen ar draws yr economi yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU.

Mae gan y rhanbarth asedau economaidd pwysig, yn enwedig dinas Abertawe, gyda dwy brifysgol fawr, asedau ymchwil a datblygu a chynlluniau uchelgeisiol i dyfu yn ganolfan ranbarthol bwysig. Mae gan y rhanbarth gysylltedd da, gyda chysylltiadau â Choridor yr M4 a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac ag Iwerddon drwy'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd, nifer o borthladdoedd mawr a meysydd awyr lleol, ac mae Metro newydd arfaethedig Bae Abertawe a Gorllewin Cymru yn cynnig cyfleoedd cyffrous ar gyfer gwella hygyrchedd ar draws y rhanbarth. Mae capasiti ar gyfer gweithgynhyrchu uwch, yn Llanelli a Port Talbot er enghraifft, gyda harbwr dŵr dwfn a chapasiti sylweddol ar gyfer twf yn y dyfodol, ynghyd â dwy Ardal Fenter y rhanbarth yn Nyfrffordd Aberdaugleddau a Glannau Port Talbot. Mae gan asedau naturiol y rhanbarth, yn enwedig y Môr Celtaidd, y potensial i gefnogi cynhyrchu rhagor o ynni ar y tir ac ar y môr. Mae Dyfrffordd Aberdaugleddau yn hollbwysig i sicrhau cyflenwad ynni'r DU yn y dyfodol gyda nifer o osodiadau ynni wedi'u hen sefydlu.

Gan edrych i'r dyfodol, mae cyfleoedd a manteision mawr yn y rhanbarth, gyda photensial ar gyfer ynni carbon isel, twf ein prifysgolion yn y dyfodol a datblygu eu perthynas â'r sylfaen fusnes; newidiadau i dechnoleg/arferion gwaith sy'n rhoi rhagor o gyfleoedd i weithio gartref a fydd yn helpu i oresgyn y ffaith bod y rhanbarth yn ddiarffordd ac yn cynyddu manteision ansawdd bywyd uwch cymaint ag y bo modd.

1 Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ond mae rhai heriau hirdymor i'w goresgyn hefyd, gan gynnwys hanes o gynhyrchiant isel – er y bu cryn gynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf; diffyg sgiliau; effeithiau parhaus dad-ddiwydiannu, poblogaeth oedran gweithio sy'n mynd yn llai ac, mewn llawer o ardaloedd, gyflogau cymharol isel. Yn ogystal â'r rhain mae heriau strwythurol mawr, gan gynnwys datgarboneiddio a'r effaith ar gryfderau gweithgynhyrchu hanesyddol y rhanbarth. Mae hefyd heriau uniongyrchol a allai arwain at ganlyniadau tymor hwy, fel COVID-19, ymadael â'r UE a'r newid i'n perthynas fasnachu â gweddill y byd, a'r effeithiau ar y sylfaen fusnes, o weithgynhyrchu i amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd. Yn ogystal, mae'r heriau strwythurol i ganol ein trefi a'n dinasoedd, wedi'u cyflymu gan COVID-19, a phwysigrwydd mynd i'r afael â hyfywedd y farchnad eiddo masnachol yn parhau i beri cryn bryder.

Fodd bynnag, mae rhanbarth y De-orllewin wedi gwneud camau mawr eisoes drwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe (gweler y rhestr o brosiectau) ac, wrth edrych i'r dyfodol, bydd y rhanbarth yn adeiladu ar hynny a'r hanes o lwyddo i adeiladu economi fwy cadarn, cynhyrchiol a chynhwysol.

Rhestr o Brosiectau Bargaen Ddinesig Bae Abertawe

- Menter Sgiliau a Thalentau.
- Seilwaith Digidol.
- Canolfan S4C yr Egin.
- Ardal Ddigidol Dinas Abertawe a'r Glannau.
- Cartrefi yn Orsafoedd Pŵer.
- Ardal Forol Doc Penfro.
- Campysau Llesiant, Chwaraeon a Gwyddorau Bywyd.
- Pentref Llesiant a Gwyddorau Bywyd, Pentre Awel.
- Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.



De-orllewin Cymru – Cipolwg

Cryfderau/Cyfleoedd



Amgylchedd naturiol eithriadol a chynnig deniadol o ran twristiaeth a threftadaeth

Cryfderau sectoraidd mewn ynni, gweithgynhyrchu uwch a thechnolegau digidol gyda safleoedd strategol a chanolfannau arloesi

Cwmnïau byd-eang a nifer cynyddol o ficro fentrau cynhenid a busnesau newydd gan raddedigion

Rhagoriaeth SAU, masnacheiddio ymchwil gyda darpariaeth AB gyfun a gweithle ymroddedig

Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r Ardal Fenter wedi cael dynodiadau trawsnewidiol

Gweithgareddau adfywio ffisegol i sbarduno buddsoddiad a thwf pellach

Gwendidau/Bygythiadau

Cynhyrchiant
ar ei hôl hi,
diffygion sgiliau
a chrynodeiadau
o anweithgarwch
economaidd,
diweithdra ac
amddifadedd

Canol dinasoedd
a threfi sy'n
ei chael hi'n
anodd oherwydd
gostyngiad yn nifer
yr ymwelwyr

Effaith bosibl Brexit
ar gymunedau
gwledig a
phorthladdoedd

Diffyg seilwaith busnes
modern, ychydig yn
unig o ddatblygu
hapfasnachol,
gwerthoedd rhent
isel a bylchau o ran
hyfywedd yn tynnu
sylv at fethiant
y farchnad

Cysylltedd digidol a
thrafnidiaeth gwael
mewn rhannau o'r
rhanbarth



Asedau Rhanbarthol

Mae gan Dde-orllewin Cymru dreftadaeth a tharddleuedd cryf mewn diwydiannau a sectorau allweddol, gyda datblygiadau sylweddol i asedau rhanbarthol yn rhoi cyfleoedd ar gyfer twf newydd, cynaliadwy a chynhwysol. Bydd pwysigrwydd a photensial economi sylfaenol y rhanbarth hefyd yn gyfle allweddol i wella rhagolygon De-orllewin Cymru.

Bydd y rhanbarth yn adeiladu ar amrywiaeth o asedau pwysig a gwahanol sy'n seiliedig ar leoedd sy'n cynnwys:

- Y Môr Celtaidd – gyda'r potensial i'r rhanbarth fod ar flaen y gad yn ymdrechion y DU i gynhyrchu ynni gwynt drwy dechnoleg sy'n arnofio ar y môr ac yn gatalydd i gyflymu'r gwaith o ddatblygu seilwaith i alluogi ac i ysgogi twf ynni ar y môr
- Porthladdoedd – mae dau o borthladdoedd dŵr dwfn prysuraf y DU yn y rhanbarth, yn Aberdaugleddau a Port Talbot, sy'n cael eu cefnogi gan y porthladdoedd fferi a chargo cyffredinol yn Abertawe ac Abergwaun
- Sefydliadau Addysg Uwch, gan gynnwys Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru (y Drindod Dewi Sant) a'r amrediad o ymchwil ddiwydiannol a gwyddonol o'r radd flaenaf mewn mannau fel Canolfan Arloesi a Gwybodaeth SPECIFIC ym Mhrifysgol Abertawe; y Ganolfan Adeiladu Weithredol ac ASTUTE (Technolegau Gweithgynhyrchu Cynaliadwy Uwch) a Chanolfan Ymchwil a Datblygu Hydrogen Prifysgol De Cymru ym Maglan

- Asedau sy'n benodol i sector, gan gynnwys Parc Bwyd Sir Benfro, yr Egin – canolfan greadigol a digidol yng Nghaerfyrddin sy'n cynnwys y cyfleusterau ar gyfer cynhyrchu deunydd i'r cyfryngau a mannau cydweithio; Cyber Wales a Phentref Lleisiant a Gwyddorau Bywyd Pentre Awel yn Llanelli
- Y doreth o asedau naturiol eithriadol, trefi marchnad traddodiadol, asedau diwylliannol gan gynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr – sy'n cynnig profiadau gwyb ar gyfer ymwelwyr


Mae asedau sydd hefyd yn atgyfnerthu ein cysylltiadau rhanbarthau cyfagos – gan edrych i'r dyfodol, mae'r Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd rhwng Castell-nedd Port Talbot a de Powys yn rhoi cyfle i sicrhau'r manteision economaidd mwyaf posibl i Ganolfan Cymru a De-orllewin Cymru.

Drwy ddefnyddio dull o ddatblygu ac adeiladu'r economi ranbarthol sy'n seiliedig ar leoedd, rydym yn cydnabod y cyfleoedd i adeiladau ar ein cryfderau unigol, gan gynyddu ein buddsoddiadau mewn canol trefi; bydd hynny'n cynnwys darparu mynediad gwell i fannau agored, creu canolfannau gweithio o bell a gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch, gan fabwysiadu egwyddor 'Canol Trefi'n Gyntaf' pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau.



4. De-orllewin Cymru – Ble yr hoffem fod?

Drwy ddatblygu'r Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol, mae partneriaid rhanbarthol wedi cytuno ar weledigaeth deng mlynedd a rennir ar gyfer economi De-orllewin Cymru. Mae Fframwaith Strategol y Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol yn amlinellu tri maes allweddol i ganolbwyntio arnynt ac yn darparu'r sail ar gyfer amlinellu ein cyd-ddyheadau yn y fersiwn gyntaf hon o'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.



Cadarn a Chynaliadwy

Y gallu i wrthsefyll newidiadau technolegol ac effeithiau digideiddio:

- Cefnogi cwmnïau i fabwysiadu ac addasu i dechnoleg newydd
- Adeiladu marchnad lafur gadarn drwy'r system sgiliau o ysgolion hyd at ddysgu oedolion.

Y gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio:

- Gwneud sylfaen weithgynhyrchu'r rhanbarth yn fwy cadarn (gan gynnwys yn ei ddiwydiannau sylfaen sy'n gymharol garbon-ddwys (ar hyn o bryd)

- Cefnogi ymaddasu a mabwysiadu ar draws yr economi (ar draws sectorau a thrwy'r stoc o adeiladau a'r system drafnidiaeth)
- Darparu cysylltiadau digidol cadarn i gefnogi arferion gwaith sy'n newid a mynediad gwell at gyflogaeth.

Cefnogi cwmnïau a chadwyni cyflenwi i fod yn fwy cadarn a 'sefydledig':

- Datblygu'r sylfaen fusnes leol drwy sicrhau mynediad at gymorth, cyllid, rhwydweithiau a chaffael
- Sefydlu'r arferion gorau a chadernid ar draws y gadwyn gyflenwi
- Mynd ati'n barhaus i adeiladu capasiti a gallu rheoli..

Mentrus ac Uchelgeisiol

Uchelgeisiol mewn perthynas â'n cyfleoedd ar gyfer ynni hirdymor:

- Sicrhau'r capasiti i wireddu ein potensial
- Integreiddio ein manteision ynni adnewyddadwy naturiol â chryfderau ein prifysgolion a'n diwydiannau.

Mentrus mewn perthynas ag amodau marchnad sy'n newid, technoleg a chyfleoedd:

- Buddsoddi yn y system sgiliau ar draws yr economi ac ysgogi'r galw am sgiliau lefel uwch a thechnegol, yn ogystal â dylanwadu ar y cyflenwad
- Buddsoddi yn y stoc eiddo masnachol – ar gyfer busnesau lleol sydd am dyfu yn ogystal â buddsoddwyr newydd.

Hyrwyddo modelau newydd ar gyfer buddsoddi, arloesi ac ariannu:

- Datblygu ffynonellau cyllid eraill yn lle cyllid Ewropeaidd
- Hyrwyddo'r rhanbarth fel lleoliad da ar gyfer buddsoddwyr, gweithwyr ac ymwelwyr.

Cytwbys a Chynhwysol

Cydbwysedd rhwng arloesi blaengar a thwf cynaliadwy ar draws yr economi:

- Datblygu cyfleoedd ar gyfer arloesi sy'n 'newydd i fusnesau', yn ogystal ag ymchwil a datblygu, technoleg a datblygu cynhyrchion newydd
- Cydnabod cyfleoedd ar gyfer amrediad amrywiol o fusnesau a modelau perchnogaeth.

Wedi'u rhannu'n gytwbys ar draws y rhanbarth:

- Dathlu amrywiaeth ranbarthol a chyfleoedd sy'n cael eu rhannu'n helaeth
- Creu twf hirdymor gan gynnal a gwella asedau amgylcheddol a chymunedol craidd ar yr un pryd
- Cydnabod a gwella gwerth cynhenid yr amgylchedd i ansawdd bywyd ac ansawdd lle
- Cefnogi cymunedau i fod yn berchen ar asedau economaidd, lle y gall hynny gefnogi cyfleoedd lleol a chreu enillion cynaliadwy.





EMBROKESHIRE BEACH FOOD

CAFE M°

5. Blaenoriaethau Economaidd

Set o flaenoriaethau economaidd a rennir yw'r meysydd hynny sy'n rhoi sylw i lle y gall gweithredu a buddsoddi ar y cyd sicrhau'r manteision mwyaf posibl i bawb ledled y rhanbarth, gan fanteisio i'r eithaf ar ein cryfderau a'n hasedau. Mae'r corff presennol o waith a wnaed gan bartneriaid rhanbarthol i lunio Cynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer nodi set o flaenoriaethau datblygu economaidd rhanbarthol, neu 'Genadaethau', wedi'u cefnogi gan randdeiliaid rhanbarthol:

Cenhadaeth 1 – Sefydlu De-orllewin Cymru yn un o arweinwyr y DU ym maes ynni adnewyddadwy a'r economi sero-net

Gan edrych tuag at 2030, ein nod yw gwneud De-orllewin Cymru yn un o arweinwyr y DU ym maes ynni adnewyddadwy. Mae hynny'n golygu manteisio ar ein hasedau naturiol a'n capasiti diwydiannol ac ymchwil a datblygu i adeiladu presenoldeb o arwyddocâd rhyngwladol ym maes technolegau tanwydd y dyfodol, ac i ysgogi'r gwaith o ddatgarboneiddio ein sylfaen ddiwydiannol a'r economi ehangach.

Cenhadaeth 2 – Adeiladu sylfaen fusnes gref, gadarn a sefydlog

Mae busnes yn ganolig i'n strategaeth hyd at 2030: drwy ehangu cwmnïau sydd eisoes yn bodoli a dechrau a denu busnesau newydd y bydd swyddi newydd yn cael eu creu a thwf mewn cynhyrchiant yn cael ei sicrhau. Mae hynny'n golygu cefnogi twf busnes cynaliadwy – bod ar flaen y gad o ran technoleg ac arloesi ac ar draws yr economi.

Cenhadaeth 3 – Datblygu a chynnal y profiadau mae De-orllewin Cymru yn eu cynnig

Mae gan Dde-orllewin Cymru amgylchedd gwych sy'n cynnig ansawdd bywyd unigryw. Mae hwn yn ased allweddol i'r rhanbarth, ac yn un y mae'n rhaid inni ei ddiogelu a'i wella. Byddwn yn gwneud De-orllewin Cymru yn enwog am ansawdd ac ehangder y profiadau mae'n eu cynnig, gan ddwyn ynghyd ansawdd bywyd a diwylliant ein hardaloedd trefol a'n hardaloedd cefn gwlad. Bydd hynny'n cefnogi economi ymwelwyr gwerth uchel – ond bydd hefyd o dan berchnogaeth leol ac yn rhan ganolog o'r hyn sy'n denu buddsoddiadau.

Adeiladu ein Capasiti

Yn sail i'n dull gweithredu mae'r angen i ystyried ymyriadau sy'n cynhyrchu cyflenwad yn ogystal â galw, sy'n adeiladu capasiti'r rhanbarth i gefnogi lles economaidd, sicrhau bod gan y rhanbarth y cyflenwad priodol o sgiliau a thalent i ateb y galw yn y dyfodol yn ogystal â'r seilwaith digidol, y cysylltiadau a'r safleoedd a'r adeiladau masnachol sy'n hanfodol i alluogi pob un o'r tair Cenhadaeth.

6. Ein Camau Nesaf

Drwy gydol y argraffiad cyntaf hwn o'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru byddwn yn ceisio:

- Gweithio gyda'n gilydd fel rhanbarth, gan gydnabod bod y ffordd yr ydym yn cyflawni yr un mor bwysig â'r hyn yr ydym yn ei gyflawni, a chroesawu'r ffyrdd o weithio a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn ein hymdrechion i adeiladu economi ranbarthol gryfach a gwyrddach wrth inni wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at ddatgarboneiddio
- Datblygu ymhellach a chyflawni'r tair 'Cenhadaeth' a'r camau â blaenoriaeth a amlinellir yng Nghynllun Datblygu Economaidd Rhanbarthol De-orllewin Cymru drwy gydweithio â'n gilydd, a hynny mewn modd cydgyssylltiedig
- Cydweithio â'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i ddatblygu'r sgiliau cywir ar gyfer gweithlu'r dyfodol, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer datblygu economaidd, gan sicrhau hyblygrwydd a chyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a chyflogadwyedd i bawb, a sgiliau y gellir eu trosglwyddo i feysydd newydd wrth i dechnoleg ddatblygu
- Parhau i ymchwilio i fylchau yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n ysgogi newidiadau megis effeithiau COVID-19, ymadael â'r UE a newidiadau demograffig gan gynnwys y ffordd orau o sicrhau bod rhagor o'n pobl ifanc yn aros yn y rhanbarth
- Archwilio sut rydym yn mesur llwyddiant yn ein rhanbarth – gan ystyried cyfres ehangach o lawer o ddangosyddion sy'n ystyried mwy na'r economi'n unig ac sy'n adlewyrchu lles y rhanbarthau yn ogystal â'i ffyniant
- Llywio a dylanwadu ar y gwaith o gynllunio a chyflwyno polisiau cenedlaethol yn y dyfodol mewn meysydd fel datblygu economaidd, sgiliau ac adfywio i lunio rhaglenni a chyfleoedd ariannu i ddiwallu anghenion a chyfleoedd unigryw De-orllewin Cymru
- Bod yn hyderus wrth hybu a hyrwyddo rhanbarth De-orllewin Cymru fel ardal llawn cyfleoedd economaidd, yn lle uchelgeisiol a deniadol i fyw ynddo ac yn lle mae pobl yn awyddus i fuddsoddi ynddo – ardal sy'n cynnig swyddi â chyflogau da ar gyfer gweithwyr medrus
- Parhau â'r sgwrs am gyfeiriad yr economi yn y dyfodol gyda'r holl randdeiliaid a chymunedau sydd am weld De-orllewin Cymru sy'n gynaliadwy ac yn llwyddiannus
- Datblygu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol drwy fersiynau yn y dyfodol a fydd yn adlewyrchu'r cyd-destun a'r dirwedd ranbarthol wrth iddi esblygu, mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer buddsoddi rhanbarthol a threfniadau llywodraethu sy'n cael eu datblygu, fel Cyd-bwyllgorau Corfforedig
- Ystyried a datblygu dull priodol o fonitro a gwerthuso ein cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion, gan gynnwys cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau strategol a ffyrdd o weithio, ac sy'n ein galluogi i ymateb i amgylchiadau sy'n newid



